# Cymru

**Mae ein dyfrffyrdd yn trawsnewid lleoedd ac yn cyfoethogi bywydau yng Nghymru. Ond mae newid hinsawdd yn fygythiad i'w seilwaith hanesyddol, felly mae'n rhaid i ni sicrhau bod buddsoddiad yn parhau i osgoi'r risg eu bod yn dirywio.**



**Chwith:**
Trefor, Camlas Llangollen

Ym mis Hydref, gydag aelodau o'r Senedd, sefydliadau partner a gwirfoddolwyr, cynhaliwyd derbyniad i ddathlu degfed pen-blwydd yr Ymddiriedolaeth. Roedd y digwyddiad yn dangos sut mae ein camlesi yng Nghymru yn cael eu defnyddio fwy nag erioed o'r blaen, a gan fwy o bobl nag ar unrhyw adeg mewn hanes. Roedd Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd, yn cydnabod gwerth camlesi wrth ddarparu cyfleoedd i gymunedau Cymru ymgysylltu â natur a gwella eu hiechyd a lles.

Fel rhan o'n rhaglen Gwreiddiau'r Gymuned a ariennir gan chwaraewyr Loteri Cod Post y Bobl, gwnaethom barhau i weithio gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen i ddarparu amrywiaeth o brosiectau, digwyddiadau a gweithgareddau cymunedol, yn ogystal â gwella pen deheuol Camlas Mynwy ac Aberhonddu i ymwelwyr. Mae ein gwaith wedi'i ganoli o amgylch Basn Pont-y-moel yn Nhorfaen, lle rydym yn cynnig cyfleoedd i'r gymuned leol wella eu hiechyd a lles, datblygu sgiliau, cymryd rhan yn y celfyddydau, a chymryd rhan mewn gweithgareddau am ddim. Mae enghreifftiau diweddar yn cynnwys sesiynau blasu canŵio, ioga min nos, byw yn y gwyllt, teithiau cerdded bywyd gwyllt, prosiectau murluniau, a mabwysiadu pocedi i gymunedau ac ysgolion. Ac mae rhaglen helaeth o waith cynnal a chadw a gwella yn cael ei ddarparu gan ein tîm cynyddol o wirfoddolwyr.

Camlas Mynwy ac Aberhonddu yw un o'r camlesi mwyaf prydferth ar ein rhwydwaith, ac mae'n parhau i wynebu nifer o heriau o ran ei seilwaith a chyrchu dŵr. Eleni cwblhawyd rhaglen waith gwerth £350,000 dros y gaeaf a oedd yn cynnwys atgyweirio waliau lociau yn Llangynidr, atal gollyngiadau ar y lan feddal ger Brynich ac atgyweirio Pont Humphreys ger Gofilon. Buom hefyd yn parhau i archwilio opsiynau ar gyfer sicrhau cyflenwad dŵr cynaliadwy ac yn 2022 fe wnaethom apelio yn erbyn

Mae ein camlesi yng Nghymru yn cael eu defnyddio fwy nag erioed o'r blaen, a gan fwy o bobl nag ar unrhyw adeg mewn hanes

cyfyngiadau trwydded a osodwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru a fyddai wedi cael effaith ddifrifol ar argaeledd dŵr ar y gamlas.

Yng Nghanolbarth Cymru, gyda chefnogaeth o £10,000 gan Belu Water, fe wnaethom osod cyfres o 'argaeau sy'n gollwng' i leihau siltio a gwella ansawdd dŵr yng Nghamlas Maldwyn. Mae'r gamlas yn SoDdGA ac yn Ardal Gadwraeth Arbennig. Mae amlder a difrifoldeb cynyddol y glaw yn dod â mwy o ddŵr o sianeli bwydo ar draws tir fferm cyfagos, gan achosi i silt gronni yn y gamlas. Mae'r argaeau yn arafu llif y dŵr yn y sianeli bwydo ac yn trapio silt cyn iddo gyrraedd y gamlas, gan greu cynefin gwerthfawr i anifeiliaid di-asgwrn-cefn.

Mae cyllid a sicrhawyd o Gronfa Ffyniant Bro llywodraeth y DU wedi ein galluogi i symud ymlaen i adfer rhan 4.4 milltir o hyd o Gamlas Maldwyn. Mewn partneriaeth â Chyngor Sir Powys, ac ystod o bartneriaid a gwirfoddolwyr, dechreuodd y gwaith ar y safle ym mis Ionawr 2023 gyda'r cam cyntaf o garthu ar ran 450 metr o hyd o'r gamlas o Lanymynech i Bont Walls. Mae carthu pellach wedi'i gynllunio i wneud y mwyaf o'r gofod dŵr agored sydd ei angen ar gyfer goroesiad rhywogaethau planhigion dyfrol gwarchodedig, ac adfer y sianel i safon fordwyol. Mae dwy bont newydd hefyd wedi'u cynllunio i gael gwared ar rwystrau i lywio yn y dyfodol. Rydym wedi bod yn siarad yn rheolaidd â'r gymuned leol am ein cynlluniau, ac rydym wedi cynnal trafodaethau technegol gyda'r gymuned ecolegwyr ehangach a phartneriaid, gan sicrhau bod y gwaith a wneir yn gwella cyflwr ecolegol y ddyfrffordd, yn ogystal â gwasanaethu fel sbardun i ddatgloi'r manteision economaidd a chymdeithasol y gall adferiad llwyr o Gamlas Maldwyn eu cynnig.

Yng Ngogledd Cymru, diolch i arian a gafwyd yn flaenorol gan Gronfa Ffyniant Bro Llywodraeth y DU, fe wnaethom fwrw ymlaen â'n cynlluniau ar gyfer cyfres o welliannau mynediad ym Masn Trefor. Mae'r rhain yn cynnwys: canolfan llogi cychod newydd; canolfan addysg a dysgu; pont hygyrch i gerddwyr; a gwelliannau i lwybrau cerdded cyfagos. Wedi'u cyflwyno mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, mae ein cynlluniau'n plethu â phrosiectau eraill i ddiogelu a thrawsnewid Safle Treftadaeth y Byd Dyfrbont a Chamlas Pontcysyllte, yr ymwelodd dros hanner miliwn o bobl ag ef yn 2022/23.

Buom yn atgyweirio'r rheiliau llaw haearn bwrw ar ein Heneb Hynafol Gofrestredig Dyfrbont Pontcysyllte, a chroesawyd bron i 43,000 o bobl yng Nghanolfan Ymwelwyr Basn Trefor. Cynhaliwyd digwyddiadau rheolaidd i ddod â phobl i'r glannau, gan gynnwys cyfres o sesiynau blasu Dewch i bysgota! a Dewch i wneud Ioga.



**Dde:** Aberhonddu, Camlas Mynwy ac Aberhonddu